

213)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting,nos Lun Mehefin 19eg 2023-- 19/06/23—8pm at Tabernacle Chapel Vestry,Pencader.

---

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors:M.Griffiths,D.Davies,A.Davies,M.Jones,V.Davies,H.Lewis,Y.Griffiths

Ymddiheuriadau: R.Thomas,S.Mason

absennol:G.Jones

Clerc:Anita Evans

Ymwelwyr/visitors: PCSO Anwen Davies

---

1)Cadeiriwyd gan M.Griffiths. Croesawodd bawb,a nodwyd ymddiheuriadau.Meeting chaired by M.Griffiths who welcomed all and apologies noted.

2)Datgan diddordeb gan Gynghorwyr/declaration of interest/none

3)Heddlu: PCSO Anwen Davies yn bresennol.Cafwyd y data misol.Trist cofnodi fod 3 fferm ar y mynydd wedi colli defaid.Mae'n edrych fewn i'r gwyn fod cyffuriau ym Mhencader.The PCSO was present,and was thanked for the monthly crime data.She reported that 3 farms on the mountain had been subjected to sheep theft.She will also look into reports of drugs in Pencader.The chairman thanked her for attending.

4 )Cofnodion mis Mai /May minutes- found to be correct—prop.A.Davies,sec.V.Davies.

5)Materion y Clerc/Clerk matters:

a)Cyngor Sir:dim atebion oddiwrth yr Adran Briffyrdd;Chris Evans wedi ymateb ynghlyn â'n gofidiau am safle toiledau Pencader,ac yn dod allan i'n cwrdd ar y safle fore Gwener 30/06 am 10yb.C.C.C.-no replies from Highways;Chris Evans has replied about our issues at Pencader Conveniences,and has agreed to meet members on site at 10am 30/06.

b)cafnau blodau—mae Farmyard wedi plannu y 12 cafn ar draws y Plwyf.Mae'r Clerc wedi trefnu fod unigolion yn eu dwrhau,a diolch yn fawr iddynt.The 12 flower troughs that we maintain throughout the Parish have been planted by Farmyard,and the Clerk has contacted individuals to water the 12 during the season.We thank them very sincerely.

c)Cornel Chwarae—Playdale wedi cysylltu i ymddiheurio nad yw'r peiriannydd wedi bod yn cywiro'r adnodd ar y safle eto—bydd yn dod gynted â phosib.Gofid mawr yw fod yr arwydd rhybudd,a'r tap melyn yn cael eu tynnu ffwrdd yn gyson. Playdale have sent apologies that the apparatus in need of repair at the Play Corner has not been attended to yet—the engineer will come as soon as possible.It is a worry that the safety warning and red/yellow tape placed on this apparatus are constantly removed.These are placed for safety reasons.We need to order hazzard tapes for the Council.

---

(6)Ariannol/financial: ni chafwyd y fantolen yn gywir—Clerc i wneud cywiriadau erbyn tro nesa/balance sheet not passed as there is an omission –Clerc will review by next meeting.

Biliau i'w talu/bills to be paid: Cyflogau(wages)(May):£2,114.28;Kangaloos (£150.00);Clerk -costau ffon a stampiau (£16.45);Un.Llais Cymru/One Voice Wales training:(£114.00);Defib.World—1 pad,1 battery (£323.19);Farmyard (£720.00);T.L.Thomas (£248.18);Geraint Rees-ffens Cornel Bicnic:(£30.00);Welsh Hearts(3 defibrillators—£4,944.00)to be paid—prop.D.Davies;sec.Y.Griffiths.

214) Clerc wedi dechrau'r broses o newid cyfri Banc i Lloyds/process to change bank account commenced.

---

7)[Cynllunio](#)/Planning:a)Eagle Inn;b)Glanteifi;c)Maesyrhaf;ch)1 Heol Mafon.(dim gwrthwynebiad/no objection)

---

#### 8)Gohebiaeth/correspondence:

a)Ombudsman: yn dilyn cwyn gan unigolyn,byddwn yn ail-gysylltu â'r Adran Gyfreithiol yn Un Llais Cymru/following a complaint by a Parishioner,we will once again contact the Law Dept. in One Voice Wales.

b)Gohebiaeth o'r ICO wedi ei nodi/ICO correspondence noted.

c)Derbyniwyd e-bost oddiwrth Julia Davies ar ran ei thad E.L.Thomas.Yn drist iawn bu farw Mr.Thomas ddeuddydd cyn y cyfarfod,ac mae'r Cyngor yma yn cydymdeimlo'n ddifffuant â'r teulu.Pwrpas yr e-bost yw gofyn ydy hi'n bosib gwneud i ffwrdd â'r barriers,ar bwys toiledau Pontweli,roddwyd i fyny amser y llifogydd.Mae'r teulu yn cael ffwdan i fynd at ei darn tir i'w gynnal a chadw.Pan yn addas,byddwn yn cysylltu â'r teulu i'w cynghori i siarad â'r Cyngor Sir ar y cam nesa,gan bwysleisio fod rhaid cael system ddiogelwch rhag llifogydd.

An e-mail has been received from Julia Davies,on behalf of her father Mr.E.L.Thomas.Very sadly Mr.Thomas passed away two days prior to this meeting.The Council wishes to send our deepest sympathy to the family.The concern is regarding barriers erected in Pontweli,near the toilets,during floods.The family would like the barriers removed as it is impossible to maintain their land.When suitable,we will ask the family to contact the County Council(who placed the barriers),but stressing safety issues.

ch)H.Lewis wedi cael cais am osod arwydd Eglwys Pencader yn y pentref.Cysylltir â'r Cyngor Sir/a request has been received for a sign in the village indicating St.Mary's Church,Pencader.We will contact C.C.Council

d)Carnifal Llandysul—llythyr wedi ei dderbyn,a bydd ateb yn cael ei anfon/a letter has been received from Llandysul Carnival Committee,and we will respond.

dd)Hysbysiad Preifatrwydd Cynghorau Cymuned—sut mae Llywodraeth Cymru yn rheoli ein data;Welsh Government letter stating how they control Councils'data.

e)M.Griffiths—wedi edrych ar les y toiledau—mae'n llawn camgymeriadau,a byddwn yn ei ddychwelyd heb arwyddo/the toilet lease is full of mistakes,and will be returned to the County Council.Tynnu sylw at yr annibendod tu ol y 2 gafn blode ym Mhontweli.Gofynnir i H.Jones dorri porfa'n amlach,a chlirio'r

sbwriel.The site of the 2 flower troughs in Pontweli need a lot of attention—we will ask H.Jones to cut the surrounding grass more often and keep rubbish in check.

f)Rheolau Sefydlog—newidiadau wedi eu derbyn oddiwrth Un Llais Cymru,a byddwn yn gwneud newidiadau.Standing Orders—changes from One Voice Wales,and we will amend ours.

215)ff)Ieuan Davies Llanybydder wedi cysylltu i ofyn caniatad I blannu coeden ym Mynwent Pencader.Polisi'r Cyngor yw dim plannu rhagor o goed yn y ddwy Fynwent.Following a request to plant a tree in Pencader Cemetery,we will decline the request,stating no trees will be planted in both Cemeteries.

---

9)U.Fater Arall(gwybodaeth yn unig)A.O.B.from Councillors(information only):

a)Clerc yn gofyn am y posibilrwydd o roi gwybodaeth Cofrestr Mynwent Pencader ar gyfrifiadur/can we look into the possibility of digitalising the entries of the Parish Cemetery register?

b)H.Lewis--Mae wedi dod yn gyfraith fod teuluoedd y rhai sy'n cael eu claddu yn ein Mynwentydd yn arwyddo cytundeb gyda'r Cyngor yma,ac yn ei ddychwelyd gyda'r tal claddu.It is now a law that the 9families of persons buried in our Cemeteries enter into a signed agreement with this Council,and return document with payment.

c)A.Davies—ffordd Gwyddgrug/Pencader yn wael;arwydd 30mya ar bwys Drenwydd yn gwynebu'r clawdd;angen torri llwyn sy'n cuddio'r arwydd ildio ar bwys Maesawelon;arwydd ffordd ar bwys Panteg yn wynebu'r clawdd;gratin ar bwys toiledau Alltwalis yn isel;gratin isel yn y ffordd ar ol pasio Penrhiw.

Surface of Gwyddgrug/Pencader road is poor;30mph sign near Drenwydd facing the hedge;give way sign by Maesawelon is hidden;road sign near Panteg facing hedge;drain by Alltwalis toilets is very low,causing drivers to go into middle of the road to try to avoid it;another drain on Pontweli /Llandysul road near Penrhiw is causing problems.

---

Gorffenwyd/ended 9.55pm

---

Is bwyllgor cyllid—cyfarfu yr is bwyllgor am 7.30 cyn y cyfarfod misol.

Presennol: M.Griffiths(cadeirydd),A.Davies,H.Lewis,Y.Griffiths,Clerc. Ymddiheuriadau:D.Davies.

Cafwyd y fantolen wedi ei pharatou gan A.Davies.Diolch iddi.Nodwyd: fod bil Farmyard am ddwy flynedd; bil hyfforddiant o £385.00, costau achlysurol am Chwefror yn £401.32;Cornel Chwarae Chwefror yn £1,265.74(talu ymlaen am gywiriadau);nodi £2.328 am uwchraddio cctv yn y Pafiliwn yn gwarant capital; ychwanegu cyflogau Awst:£2,102.54.Yn dilyn y newidiadau hyn,derbyniwyd y fantolen.

Finance sub-committee met at 7.30pm before full May meeting. Present: M. Griffiths (chairman), A. Davies, H. Lewis, Y. Griffiths, Clerk. Apologies: D. Davies.

A. Davies presented the balance sheet. She was thanked. To be noted: Farmyard bill is for 2 years; training costs: £385.00; Incidental costs, February figure should read £401.32; Play area for February £1265.74, (prepayment for repairs to apparatus) and £2328 as a capital expenditure for upgrading CCTV; insert figure for August wages: £2,102.54. With these changes the Balance sheet was approved.

DRAFT

DRAFT

DRAFT